TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Diogelu'r Cyhoedd

# Cynllun Gwasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2022/23



# Cynnwys


## 1. Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth

1.1 Nodau ac Amcanion
1.2 Cyswllt ag Amcanion a Chynlluniau Corfforaethol

## 2. Cefndir

2.1 Proffil yr Cyngor
2.2 Strwythur Sefydliadol
2.3 Cwmpas y Gwasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
2.4 Galw ar Wasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
2.5 Polisi Gorfodi

## 3. Cyflenwad y Gwasanaeth

3.1 Ymyraethau mewn Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
3.2 Cwynion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
3.3 Egwyddor Awdurdod Cartref a'r Cynllun Prif Awdurdod
3.4 Cyngor i Fusnesau
3.5 Samplo Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
3.6 Rheolaeth ac Ymchwiliadau i Gychwyn Clefydau Heintus yn Gysylltiedig â Bwyd
3.7 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd Anifeiliaid a Bwyd
3.8 Cysylltiadau â Sefydliadau Eraill
3.9 Gwaith Hyrwyddol Diogelwch a Safonau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd ac Ymyraethau Rheoli Answyddogol Eraill

## 4. Adnoddau

4.1 Dyraniad Ariannol
4.2 Dyraniad Staffio
4.3 Cynllun Datblygu Staff

## 5. Asesiad Ansawdd

5.1 Asesiad Ansawdd a Monitro Mewnol

## 6. Adolygu

6.1 Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth
6.2 Nodi Unrhyw Amrywiaeth o Gymharu a'r Cynllun Gwasanaeth
6.3 Meysydd Gwelliant

## Atodiadau

1. Cynllun Samplo Safonau Bwyd

# Cyflwyniad

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i orfodi deddfwriaeth diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, a chynhyrchu chynllun gwasanaeth blynyddol, yn gosod gerbron y trefniadau sy'n bodoli er mwyn cyflawni'r ddyletswydd yma, yn unol â *Chytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol gan Awdurdodau Lleol* yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae'r Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (y Cynllun) wedi cael ei gynhyrchu mewn ymateb i'r gofyniad yma, a'i fwriad yw rhoi gwybod i drigolion, y gymuned fusnes a phartïon eraill am y trefniadau sydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i reoleiddio diogelwch bwyd abwyd anifeiliaid. Mae'n dangos hefyd sut mae'r gweithgareddau yma'n cyfrannu at ac yn cefnogi amcanion corfforaethol y cyngor.

Mae'r Cynllun yn gosod gerbron sut bydd y Cyngor yn sicrhau bod y bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael ei gynhyrchu, ei werthu, ei storio, ei ddosbarthu ai'i fwyta yn Nhorfaen yn ddiogel, yn hyn y mae'n honni bod, a bod busnesau'n cydymffurfio â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae swyddogion yn yr adran Diogelu'r Cyhoedd yn rhoi cyngor, addysg a chyfarwyddyd ynglŷn â'r hyn y mae'r gyfraith yn gofyn amdano, yn ymgymryd ag ymyraethau, ymchwiliadau, samplo, ac yn cymryd camau gorfodi i sicrhau cydymffurfiad, ble mae hynny'n briodol.

Yn unol â Map Adferiad Awdurdodau Lleol yr ASB, aeth y Cyngor yn ôl at weithgareddau'n arferol yn raddol, ar ôl heriau digyffelyb pandemig Covid-19.
Dargyfeiriwyd adnoddau Diogelu'r Cyhoedd sylweddol o weithgareddau rheoleiddio bwyd a bwyd anifeiliaid yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu gwarchod, bod busnesau'n cael eu cefnogi a chyfyngiadau'r llywodraeth yn cael eu gorfodi. Cafodd ymyraethau bwyd a bwyd anifeiliaid a fwriadwyd eu dal yn ôl ar y cyfan a bu rhaid i swyddogion addasu'n gyflym at ffyrdd newydd o weithio.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o effaith sylweddol Covid-19 ar y sector lletygarwch. Mae rhai busnesau wedi dioddef niwed anadferadwy, tra bod eraill wedi ffynnu gan fod y pandemig wedi cynnig cyfleoedd iddyn nhw, neu wedi eu gorfodi i arallgyfeirio, gan ddod â chanlyniadau cadarnhaol. Mae cynnydd mewn prisiau bwyd, prinder rhai nwyddau o ganlyniadau i digwyddiadau byd-eang, cynnydd mewn costau ynni a heriau i'r sector o ran gweithlu'n ychwanegu at y pwysau yma.

Ers ailgychwyn gweithgareddau arferol, mae swyddogion wedi sôn am ostyngiad cyffredinol mewn cydymffurfiad gan fusnesau bwyd. Mae hyn yn golygu bod arolygon yn cymryd mwy o amser a bod angen mwy o gamau i ddilyn hynny. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro er mwyn gweld y goblygiadau o ran adnoddau a sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu rhag unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid.

Bydd swyddogion yn cefnogi busnesau sydd am allforio nwyddau ac yn parhau i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol yng Ngwent a ledled Cymru.

Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor yw'r arweinydd strategol ar gyfer Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru ar faterion bwyd a bwyd anifeiliaid, mae'n cadeirio *Pwyllgor Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru* ac mae'n aelod o Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid Cymru a Phanel Cynghori ar Fwyd Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol (CIEH).

trwy fabwysiadu dull cymesur, yn seiliedig ar risg at orfodaeth, mae'r Cyngor yn parhau yn ymrwymedig at rhoi'r amddiffyniad mwyaf posibl i ddefnyddwyr ac at gefnogi busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn Nhorfaen i fynnu.



**Y Cynghorydd Mandy Owen**
**Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd**

# 1. Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth

## 1.1 Nodau ac Amcanion

**Nod y gwasanaeth gorfodaeth cyfreithiol bwyd a bwyd anifeiliaid yn Nhorfaen yw**:

***Diogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid trwy sicrhau bod bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu a'i fwyta yn Nhorfaen yn ddiogel, wedi ei labelu a;i ddisgrifio'n gywir a bod busnesau bwyd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.***

Bydd y tîm yn gweithredu'r amcanion a chamau canlynol i gyrraedd y nod yma:

### Amcan 1

**Gwella diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a lefelau cydymffurfiad â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a chyfrannu at leihau'r risg o salwch trwy fwyd, trwy gyflenwi rhaglen o ymyraethau rhagweithiol mewn busnesau bwyd yn Nhorfaen.**

**Camau i gyrraedd amcan 1**:

1a Cyflwyno rhaglenni ymyrraeth sy'n seiliedig ar risg ar yfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid a

1b Cyflwyno cynlluniau samplo bwyd microbiolegol a chyfansoddol, gan gynnwys rhai ar gyfer alergenau, i wirio honiadau cyfansoddol ac iechyd

### Amcan 2

**Gwella diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a lefelau cydymffurfiad â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a chyfrannu at leihau'r risg o salwch trwy fwyd, trwy gyflenwi rhaglen o ymyraethau adweithiol mewn perthynas â diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.**

**Camau i gyrraedd amcan 2**:

2a Ymchwilio i gwynion a cheisiadau am wasanaeth mewn perthynas â diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â gweithdrefnau mewnol

2b Ymchwilio i achosion o salwch trwy fwyd yn unol â chyfarwyddyd Iechyd Cyhoeddus Cymru a chymryd camau yn ôl yr angen i atal lledaeniad pellach yn y gymuned

2c Agor ac ymateb i ddigwyddiadau a rhybuddion bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gysylltu â'r ASB a rhanddeiliaid eraill i amddiffyn iechyd cyhoeddus

2d Gweithio gydag asiantaethau partner ble mae yna wybodaeth leol sy'n dangos gweithgareddau twyll bwyd posibl neu drosedd trefnedig, a rhoi gwybod i Uned Troseddau Bwyd Cenedlaethol y ASB fel sy'n briodol

## Amcan 3

**Cefnogi ac addysgu busnesau i'w helpu i wella safonau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid** Camau i gyrraedd amcan 3:

| | |
|---|---|
| 3a | Rhoi cyngor wedi ei dargedu i fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid ar gais, ac yn achos digwyddiadau, i fusnesau cyfranogol trwy Grŵp Cyngor Diogelwch Digwyddiadau Torfaen |
| 3b | Cefnogi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn y cyfryngau cymdeithasol |
| 3c | Cynnal tir gwastad ar gyfer busnesau onest a chydwybodol trwy gymryd camau i ddelio â busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid diegwyddor, a masnachwyr twyllodrus |

## Amcan 4

**Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth, materion diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid lleol a chenedlaethol, gan gynnwys safonau hylendid mewn busnesau bwyd yn Nhorfaen, gan alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â ble maen nhw'n bwyta ac yn prynu bwyd**

### Camau i gyrraedd amcan 4:

| | |
|---|---|
| 4a | Rhoi sgoriau hylendid bwyd i fusnesau bwyd Torfaen i'w harddangos yn eu hadeiladau a lanlwytho data sgori i wefan yr ASB i'w cyhoeddi yn unol â gofynion y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd |
| 4b | Cyhoeddi rhybuddion bwyd a bwyd anifeiliaid a roddir gan yr ASB, fel sy'n briodol, yn y wasg leol ac yn y cyfryngau cymdeithasol |
| 4c | Rhoi gwybodaeth am wasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid i ddefnyddwyr, busnesau ac aelodau etholedig |

## Amcan 5

**Cynnig dulliau cyson o reoleiddio bwyd a bwyd anifeiliaid**

### Camau i gyrraedd amcan 5

| | |
|---|---|
| 5a | Cyflenwi gwasanaethau gorfodaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â'r safonau a bennir yn y *Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol gan Awdurdodau Lleol* |
| 5b | Cyflenwi gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid o ystyried Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr ASB a chyfarwyddyd swyddogol arall, gan gynnwys canllawiau diwydiant |
| 5c | Cynhyrchu data a gwybodaeth amserol i'r ASB ynglŷn â gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ôl y gofyn |
| 5d | Sicrhau bod unrhyw gamau a nodir ar ôl archwiliadau yr ASB yn cael eu cwblhau |
| 5e | Sicrhau bod swyddogion sy'n cyflenwi gwasanaethau gorfodaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid law yn cynnal a, ble mae hynny'n angenrheidiol, yn datblygu eu gallu, gan fodloni'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sydd yn y *Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid* |
| 5f | Cynnig cynrychiolaeth mewn grwpiau cyswllt lleol, gan gynnwys eu his-grwpiau, a chymryd rhan mewn ymarferion cysoni cenedlaethol, fel sy'n briodol |
| 5g | Dull cymesur o orfodaeth yn unol â Pholisi Gorfodaeth y Cyngor |

## 1.2 Cyswllt ag Amcanion a Chynlluniau Corfforaethol

Ym Mawrth 2021, mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol 2021- 2023, yn seiliedig ar y tair blaenoriaeth yn ei Gynllun Corfforaethol 2016-2021. Yn anffodus, amharodd Covid-19 ar nofer o wasanaethau a fwriadwyd yn 2020/21, sef blwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol.

Wrth fabwysiadu'r blaenoriaethau yma, cytunwyd y dylid cynnwys Cynllun Adferiad y Cyngor yn y Cynllun Corfforaethol, ac y dylai'r blaenoriaethau barhau fel amcanion lles y Cyngor.

Y tir blaenoriaeth i'r Cyngor yw:

- Sicrhau bwrdeistref sirol glân a gwyrdd
- Cefnogi lles plant a phobl ifanc a chodi cyrhaeddiad addysgol
- Cefnogaeth i drigolion mwyaf bregus Torfaen

Mae'r Cyngor yn credu y bydd y blaenoriaethau yma'n dod â'r canlyniadau yma:

- Cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y mae trigolion yn falch ohono
- Pobl ifanc i gyd yn cael y cyfle gorau posibl mewn bywyd trwy gael addysg dda, a
- Cymunedau iachach ble mae pobl fregus yn cael eu cynorthwyo i fyw bywydau annibynnol, cymdeithasol gynhwysol, yn rhydd o anghydraddoldeb.

**Torfaen glân a gwyrdd**

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r amcan yma trwy sicrhau:

- bod gan fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid drefniadau digonol ar gyfer gwaredu gwastraff ac nid yw bwyd anaddas yn cyrraedd cadwyn fwyd pobl neu anifeiliaid
- mae sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu cadw'n lân er budd defnyddwyr
- mae busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid newydd yn cael cyngor i sicrhau eu bod yn cyflenwi bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n ddiogel ac yn gyfreithiol

**Codi cyrhaeddiad addysgol**

Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i godi cyrhaeddiad addysgol trwy sicrhau:

- mae gweithredwyr busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn wybodus iawn ac wedi eu hyfforddi'n addas, yn gymesur â'r tasgau y maen nhw'n eu gwneud.

**Cefnogaeth i drigolion mwyaf bregus Torfaen**

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r trigolion mwyaf bregus:

- mae'r ifanc, yr henoed â'r sâl yn fwy agored i salwch trwy fwyd. Mae ymyraethau mewn cartrefi gofal, ysbytai ac ysgolion yn helpi i atal salwch trwy fwyd ac yn rheoli'r risg o ledaeniad.
- mae bwyd iach, maethlon yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod labeli cywir ar fwyd fel y gall defnyddwyr wneud penderfyniadau gwybodus am fwyd
- mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn galluogi'r bregus i wneud penderfyniadau gwybodus a phrynu bwyd i aros yn ddiogel

# 2. Cefndir

## 2.1 Proffil y Cyngor



Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn awdurdod lleol unedol yn ne ddwyrain Cymru, yn cynnwys ardal 126km[2] (49 milltir sgwâr). Mae'n un o bump awdurdod yng Ngwent ac mae ganddo ffiniau â Sir Fynwy i'r dwyrain, dinas Casnewydd i'r de a bwrdeistrefi sirol Caerffili a Blaenau Gwent i'r de orllewin a'r gogledd orllewin yn eu tro. Mae ganddo tair canolfan trefol, Pont-y-pŵl, Cwmbrân a Blaenafon, gyda chyfanswm poblogaeth o ryw 94,000. Mae llawer o ranbarth deheuol y fwrdeistref sirol o amgylch Cwmbrân yn drefol i raddau helaeth. Mae gogledd y fwrdeistref yn wyrddach ac mae wedi cadw darnau helaeth o gefn gwlad, yn enwedig ar y ffordd i Flaenafon.

Mae'r ganolfan weinyddo ym Mhont-y-pŵl yng nghanol y fwrdeistref sirol. Mae rhan fwyaf o weinyddiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn digwydd yng Nghanolfan Dinesig Pont-y-pŵl.



Tref newydd Cwmbrân sydd flaenaf yn Nhorfaen, ble mae cymysgedd da o dai, diwydiant ysgafn ac ardaloedd manwerthu, gan gynnwys canolfan siopa ranbarthol fawr sy'n tyfu.





Mae trefi Pont-y-pŵl a Blaenafon yn hŷn ac yn destun strategaethau gwelliant amrywiol, er bod gan rai ardaloedd o'r trefi yma lefelau uchel o amddifadedd ac iechyd gwael. Mae Blaenafon yn safle treftadaeth y byd, ac mae'r ardal yma'n denu buddsoddiad newydd o ganlyniad. Mae hen dref glofaol a gwaith haearn Blaenafon yng ngogledd y fwrdeistref sirol nawr yn Safle Treftadaeth y byd a gydnabyddir gan UNESCO.

Mae gan Dorfaen sector arlwyo a manwerthu ffyniannus, a chysylltiadau ardderchog trwy briffyrdd sy'n golygu bod nifer o weithgynhyrchwyr lleol a chenedlaethol wedi dewis lleoli eu hunain yn y fwrdeistref. Mae maint a thopograffeg yr ardal yn golygu mai bach iawn o ffermio sy'n digwydd.

Ar 1 Ebrill 2022, roedd yna 837 o fusnesau bwyd yn y fwrdeistref, Serch hynny, mae'r nifer yma'n newid yn gyson wrth i fusnesau gau, ac wrth i fusnesau newydd gychwyn, mae hyn wedi bod yn arbennig o amlwg yn y blynyddoedd diwethaf.

## 2.2 Strwythur Sefydliadol

### 2.2.1 Strwythur y Cyngor


Mae gan y Cyngor strwythur ar sail Cabinet, yn cynnwys yr Arweinydd ac Aelodau Gweithredol. Yr Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd, sy’n cynnwys Diogelu’r Cyhoedd, sy’n gyfrifol am wasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod trefniadau ar gyfer cwblhau swyddogaethau a phenderfyniadau trwy gynllun dirprwyo. Mae gweithgareddau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys arolygu a gorfodaeth, wedi eu dirprwyo i swyddogion awdurdodedig a chymwys.

### 2.2.2 Strwythur Cyfarwyddiaeth

Mae gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu darparu gan swyddogion yn y timau Gwasanaethau Masnachol a Safonau Masnachol yng ngwasanaeth Diogelwch Cyhoeddus y Cyngor.  Mae’r gwasanaeth Diogelwch Cyhoeddus yng nghyfarwyddiaeth Cymdogaethau, Cynllunio a Diogelu Cyhoedd y Cyngor.

**Diagram strwythur yn dangos cyfatebiaeth llawn amser (CALl) y swyddogion proffesiynol a ddyrannir at waith bwyd a bwyd anifeiliaid**




Cyfanswm yr adnoddau a roddir at hylendid bwyd yw 4.48 CALl

Cyfanswm yr adnoddau a roddir at safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yw 1.25 CALl

### 2.2.3 Gwasanaethau Allanol

**Dadansoddiad cemegol a ffisegol bwyd anifeiliaid a nwyddau bwyd:**

Mae'r Cyngor wedi penodi Mr. Alastair Low o Minton, Treharne & Davies Ltd, Adran Labordai, Ystâd Ddiwydiannol Forest Farm, Longwood Drive, Coryton, Caerdydd, CF14 7HY i weithredu fel:

- Dadansoddwr Cyhoeddus, fel sy'n ofynnol o dan Adran 27 Deddf Diogelwch Bwyd 1990; a
- Dadansoddwr Amaethyddol, fel sy'n ofynnol o dan Adran 67 Deddf Amaethyddiaeth 1970;

**Archwilwyr Bwyd ar gyfer archwiliadau microbiolegol bwyd anifeiliaid a nwyddau bwyd a samplau ysgarthol:**

Iechyd Cyhoeddus Cymru – Labordy Caerdydd yn Ysbyty Llandochau ar gyfer samplau bwyd ac amgylcheddol ac Ysbyty Prifysgol Cymru, Y Waun, Caerdydd ar gyfer samplau ysgarthol.

## 2.3 Cwmpas y Gwasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Dynodir Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn awdurdod bwyd o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Mae timau Gwasanaethau Masnachol a Safonau Masnach y cyngor yn adran Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau Diogelwch Bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, yn ogystal â rheoli clefydau heintus.

Mae'r gwaith yn cynnwys:

- Cynnal cofrestr o sefydliadau busnes bwyd a bwyd anifeiliaid
- Cwblhau ymyraethau ar sail risg mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid i wirio cydymffurfiad â deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â Chodau Ymarfer Cyfraith Bwyd a bwyd anifeiliaid
- Cymeradwyaeth ac arolwg o fusnesau bwyd sy'n trin bwyd sy'n dod o anifeiliaid o fewn cwmpas Rheoliad (CE) Rhif. 853/2004 a chymeradwyi unrhyw fusnesau bwyd anifeiliaid perthnasol
- Ymchwilio i gwynion am fwyd, (gan gynnwys alergenau), bwyd anifeiliaid a hylendid sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- Samplo bwyd microbiolegol ac amgylcheddol
- Samplo bwyd a bwyd anifeiliaid i wirio cydymffurfiad â gofynion cyfansoddol a labelu
- Darparu cyngor it fusnesau a defnyddwyr am faterion bwyd a bwyd anifeiliaid
- Ymchwilio i achosion a digwyddiadau o heintiau trosglwyddadwy, gan gynnwys gwenwyn bwyd, heintiau a gludir gan fwyd, a heintiau perthnasol eraill
- Ymateb i ddigwyddiadau a rhybuddion bwyd a bwyd anifeiliaid, a gweithio gyda phartïon eraill sydd â diddordeb i ymchwilio i dwyll bwyd neu drosedd bwyd drefnedig
- Gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
- Cyflwyno rheolaethau ar fwyd a bwyd anifeiliaid wedi ei fewnforio fel awdurdod mewndirol trwy samplo, arolygu, a gorfodaeth
- Rhoi Tystysgrifau Iechyd Allforion i fusnesau sy'n allforio rhai bwydydd
- Ymateb i'r adrannau cynllunio, trwyddedu, ac i geisiadau/ymgynghoriadau y grŵp ymgynghorol diogelwch digwyddiadau mewn perthynas ag eiddo bwyd gweithgareddau cysylltiedig yn ymwneud â bwyd

## 2.4 Galw ar y Gwasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

### 2.4.1 Bwyd

Ar 1 Ebrill 2022, roedd 837 busnesau bwyd yn destun rheolaeth rheoleiddiol yn Nhorfaen. Mae proffil o'r busnesau yma isod ac yn dangos mai arlwyo a manwerthu yw'r sectorau amlycaf. Mae'n rhaid i Weithredwyr Busnesau Bwyd (GBB) gofrestru eu busnesau gyda'r, ac eithrio pan fo angen cymeradwyaeth ar y sefydliad. Mae chwech o sefydliadau wedi eu cymeradwyo allon o'r 837 o fusnesau bwyd a adnabyddir.

| **Proffil Busnesau Bwyd yn ôl Categori Adeiladau- 1 Ebrill 2022** | |
|---|---|
| **Maeth o adeiladau (yn ôl categori'r ASB)** | **Rhif** |
| Cynhyrchwyr Cynradd | 0 |
| Gweithgynhyrchwyr a Phecynnwyr | 15 |
| Mewnforwyr/Allforwyr | 1 |
| Dosbarthwyr/Cludwyr | 9 |
| Manwerthwyr (gan gynnwys Archfarchnadoedd/Uwchfarchnadoedd, Manwerthwyr Llai) | 202 |
| Arlwywyr: (gan gynnwys Bwytai a Chaffis, Gwestai, Siopau Tecawê, Tafarndai a Chlybiau, Busnesau sy'n darparu gofal, Ysgolion a Cholegau, busnesau bwyd symudol ar arlwywyr eraill) | 615 |
| **Cyfanswm** | **837** |

| **Proffil Hylendid Bwyd Eiddo yn ôl Sgorio Risg - 1 Ebrill 2022** | |
|---|---|
| **Categori Sgorio Eiddo** | **Rhif** |
| A | 0 |
| B | 44 |
| C | 334 |
| D | 82 |
| E | 334 |
| Heb ei Sgorio | 43 |
| Cynllun Sgorio Risg Awyr Agored | 0 |
| **Cyfanswm** | **837** |

| Proffil Safonau Bwyd eiddo yn ôl Sgorio Risg - 1 Ebrill 2022 | |
|---|---|
| **Categori Sgorio Eiddo** | **Rhif** |
| A | 4 |
| B | 215 |
| C | 543 |
| Heb ei Sgorio | 71 |
| Cynllun Sgorio Risg Awyr Agored | 0 |
| **Cyfanswm** | **833** |

O dan Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 mewn perthynas â chynhyrchu, trin a storio Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid, mae yna chwech o sefydliadau cymeradwy ar hyn o bryd yn gweithredu yn Nhorfaen. Mae amrywiaeth y sefydliadau'n cynnwys:

| Sefydliadau Cymeradwy - 1 Ebrill 2022 | |
|---|---|
| **Math o Sefydliad** | **Rhif** |
| Storio oer | 1 |
| Sefydliad ail-lapio a/neu ail-bacio | 1 |
| Paratoi briwgig a chi | 2 |
| Cynhyrchion cig | 1 |
| Cynhyrchion pysgod | 2 |
| Cynhyrchion llaeth | 2 |
| Wyau a chynhyrchion wyau | 1 |
| **Cyfanswm** | **10*** |

- Dylid nodi bod rhai sefydliadau wedi eu cymeradwyo ar gyfer mwy nag un gweithgaredd

### 2.4.2 Bwyd anifeiliaid

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am orfodaeth deddfwriaeth bwyd anifeiliaid sy'n rheoli ansawdd, diogelwch, hylendid, labelu ac olrheiniadwyedd bwyd anifeiliaid trwy gadwyn bwyd anifeiliaid, gan gynnwys mewnforio, gweithgynhyrchu a chynhyrchiant cynradd (bwydo anifeiliaid ar ffermydd a thyfu cnydau). Mae'r rheolaethau yma'n sicrhau diogelwch y gadwyn bwyd anifeiliaid a bwyd. Yn hanesyddol, mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau o glefydau difrifol mewn anifeiliaid fel Clefyd y Gwartheg Gwallgof a Chlwy'r Traed a'r Genau wedi eu cysylltu â bwyd anifeiliaid. Yn yr un ffordd, mae digwyddiadau bwyd mawr fel diocsinau mewn porc wedi eu cysylltu â bwyd anifeiliaid wedi ei lygru.

Ar 1 Ebrill 2022, roedd yna 110 o fusnesau bwyd anifeiliaid a oed dyn destun rheolaethau rheoleiddiol yn Nhorfaen. Mae proffil o'r busnesau yma isod:

| Sefydliadau Bwyd Anifeiliaid - 1 Ebrill 2022 | |
|---|---|
| **Math o Sefydliad** | **Rhif** |
| Gweithgynhyrchwyr (A01-08 a R01-04) | 1 |
| Cynhyrchwr ar y cyd (R12) | 5 |
| Cymysgydd symudol (R04) | |
| **Mewnforwyr** | |
| **Storiâu (R09)** | |
| **Dosbarthwyr (A01-08, R01-03 a R05)** | 4 |
| **Clydwyr (R08)** | |
| **Cymysgydd ar fferm (R11)** | |
| **Cynhyrchwyr bwyd anifeiliaid anwes (R06)** | |
| **Cyflenwyr bwyd dros ben (R07)** | 9 |
| **Ffermydd anifeiliaid byw (R13)** | 90 |
| **Ffermydd tir âr (R14)** | 1 |
| **Cyfanswm** | **110** |

Ym Mawrth 2022, cyhoeddodd yr ASB y Blaenoriaethau Gorfodaeth Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gorfodaeth bwyd anifeiliaid, y bydd rhai i swyddogion eu hystyried:

- Gwirio gweithredu a chynnal systemau effeithiol rheolaeth diogelwch bwyd anifeiliaid
- Gwirio gweithredu a chynnal systemau effeithiol rheolaeth diogelwch bwyd anifeiliaid mewn busnesau sy'n cyflenwi hen fwydydd neu cyd-gynhyrchion
- Monitro effeithiol o bwyd anifeiliaid ar ffermydd
    - a: Archwilio hen fwydydd / cyd-gynhyrchion sy'n cael eu defnyddio ar gyfer bwyd anifeiliaid ar ffermydd
    - b: Gofynion cadw cofnodion ar ffermydd a gweithdrefnau wedi eu cofnod
- Monitro effeithiol o drefniadau storio mewn adeiladau bwyd anifeiliaid
- Gwirio cywirdeb labeli bwyd anifeiliaid
- Monitro effeithiol llwythi o fwyd anifeiliaid sy'n dod o wledydd y tu allan i'r UE, wrth y pwyntiau mynediad

### 2.4.3 Galwadau allanol ar Wasanaethau

#### Oedi arolygon arferol oherwydd Covid-19

O ganlyniad i gyfyngiadau'r Llywodraeth mewn perthynas â theithio di-angen, cadw pellter cymdeithasol i atal lledaeniad haint a chau cyfran sylweddol o fusnesau bwyd, cafodd arolygon arfero eu hoedi ar y cyfan yn ystod y pandemig. Cafodd swyddogion eu cyfeirio at ddyletswyddau eraill.
Cafodd hyn ei gydnabod gan yr ASB s roddodd gyngor i awdurdodau lleol yn amlygu blaenoriaethau bwyd yn ystod y pandemig. Rhoddwyd cyngor pellach i awdurdodau lleol gan yr ASB er mwyn sicrhau dulliau cyson at gynllunio adferiad pan, ym Mai 2021, fe gyhoeddon nhw eu Map Adferiad y Awdurdodau Lleol. Roedd disgwyliad y byddai gwasanaethau bwyd a bwyd awdurdodau lleol anifeiliaid ddychwelyd (mor agos â phosibl) at fusnes arferol wrth i swyddogion gael eu rhyddhau o ddyletswyddau Covid.

Yn gyffredin ag awdurdodau lleol eraill, oherwydd y pandemig, mae gan Torfaen ôl-groniad o arolygon nawr. Yn unol â chyfarwyddyd yr ASB, mae swyddogion wedi bod yn canolbwyntio ar adferiad ac ar adrodd ar gynnydd i'r ASB yn rheolaidd. Rhoddwyd adroddiad i'r ASB ar 1 Hydref 2021, 28 Ebrill 2022 ac, yn fwyaf diweddar ar 15 Gorffennaf 2022.

#### Hylendid bwyd safonau yn dirywio

Ers ail-gychwyn arolygon hylendid bwyd wedi eu trefnu yn 2021, mae tystiolaeth bod safonau hylendid bwyd wedi gwaethygu, mae arolygon yn cymryd mwy o amser ac mae mwy o waith dilynol. Mewn rhai achosion, mae gofyn wedi bod am gamau gorfodaeth ffurfiol. Effaith yr angen am fwy o orfodaeth action yw bod nifer yr arolygon gall gael eu gwneud yn gostwng, gan effeithio ar gyflenwad y rhaglen arolygon blynyddol.

#### Rheolaeth Alergennau

Gall alergeddau bwyd fod yn angheuol, ac mae amcangyfrif bod gan 1-2% o oedolion a 5-8% o blant alergedd bwyd, sy'n ryw 2 miliwn o bobl yn y DU. Mae nifer o achosion amlwg wedi bod a oedd yn cynnwys marwolaethau pobl ifanc ar ôl iddyn nhw fwyta alergenau na chawsant eu datgan. Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd yn Hydref 2021 yn ymwneud â bwydydd sy'n cael eu pacio i'w gwerthu'n uniongyrchol. Yn gyffredinol, gwelwyd fod cydymffurfiad busnesau â gofynion labelu newydd yn wael.  Mae darparu gwybodaeth a cymorth i fusnesau i'w helpu i gydymffurfio â'r gofynion wedi cyflwyno, ac yn parhau i gyflwyno goblygiadau i'r gwasanaeth o ran adnoddau..

#### Swyddogion newydd yn datblygu galluoedd

Mae swyddogion newydd wedi eu penodi i ymgymryd â rheolaethau swyddogol hylendid bwyd. Tra eu bod yn datblygu eu galluoedd, mae eu hawdurdod yn gyfyngedig, sy'n golygu na allan nhw ymgymryd â'u dyletswyddau llawn. Disgwylir y bydd pob swyddog sydd wedi eu cyflogi ar hyn o bryd i ymgymryd â rheolaethau swyddogol hylendid bwyd yn cael eu hasesu gan y swyddog bwys arweiniol i fod yn gymwys i ymgymryd a'r holl ddyletswyddau bwyd yn ystod 2022.

#### Gweithio y tu allan i oriau

Ymgymerir ag ymyraethau mewn busnesau bwyd fel arfer yn ystod oriau swyddfa.  Serch hynny, mae nifer gynyddol o fusnesau bwyd, fel siopau tecawê, dim ond ar agor gyda'r hwyr ac felly mae'n rhaid i'r tîm weithio'n hyblyg i fodloni gofynion y gwasanaeth.

### Galwadau busnesau newydd

Mae nifer y busnesau bwyd cofrestredig yn amrywio oherwydd busnesau newydd yn agor i fasnachu, busnesau cyfredol yn peidio â masnachu a busnesau ble mae yna newid mewn perchnogaeth, rheolaeth a/neu weithgareddau'n ymwneud â bwyd. Rhaid i bob busnes bwyd newydd gael eu harolygu i asesu cydymffurfiad â chyfraith bwyd a derbyn sgôr hylendid bwyd. Mae'n anodd rhagweld nifer y busnesau newydd yn dechrau masnachu, er y dylid nodi bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer busnesau newydd sy'n cofrestru gyda'r cyngor. Mae hyn yn effeithio ar feysydd eraill o waith sy'n rhan o raglen gan swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd. Ar 1 Ebrill 2022, roedd 43 o fusnesau newydd eu cofrestru yn aros am arolwg mewn perthynas â hylendid bwyd a 53 ar gyfer safonau bwyd.

### Rhagofalon Statudol y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)

Mae'r CSHB yn ymgorffori rhagofalon i sicrhau ei fod yn deg i fusnesau. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefn apeliadau, 'hawl i ateb' a pheirianwaith ar gyfer gofyn am ail arolwg neu ail ymweliad ar gyfer ail-sgorio. Nid oes modd rhagddweud faint o waith ychwanegol sy'n dod gyda'r rhagofalon yma o flwyddyn i flwyddyn, er bod gofyn talu ffi pan wneir cais am ail-ymweliadau.

### Gwybodaeth well

Mae gwybodaeth well mewn perthynas â throsedd bwyd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wedi cynyddu nifer y ceisiadau i weithio gyda gydag asiantaethau partner. Eto mae'n anodd mesur yr effaith ond gall fod yn sylweddol a gall effeithio ar raglenni ymyrraeth a gynllunnir.

### Effaith y technegau diagnostig molecwlar newydd

Mae'r cyngor yn disgwyl cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion a gadarnheir o bathogenau sy'n gofyn am ymchwiliad oherwydd cyflwyno dulliau profi molecwlar newydd mewn labordai microbioleg. Mae'r drefn brofi newydd (PCR) yn fwy sensitif na'r dulliau traddodiadol gan osod galwadau cynyddol ar y gwasanaeth. Mae yna arwyddion eisoes o'r duedd gynyddol yma.

### Rheolaethau wrth Ffiniau ar fwyd a fewnforir

Mae cyhoeddiad y Llywodraeth na fydd gwiriadau corfforol wrth safleoedd rheolaeth ffiniau ar fwyd a fewnforirm yn dechrau yng Ngorffennaf fel y bwriadwyd, yn debygol o effeithio ar awdurdodau mewndirol fel Torfaen, sy'n gwneud gwiriadau ar fwydydd wedi eu mewnforio. Mae'n amhosibl mesur yr effaith tebygol, ond bydd rhaid i swyddogion fod yn wyliadwrus er mwyn sicrhau nad yw bwyd wedi ei fewnforio'n peri risg i ddefnyddwyr.

### Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol

Mae cynnydd mewn ymwybyddiaeth cyhoeddus wedi arwain at gynnydd mewn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol, gan osod galwadau cynyddol ar swyddogion.

### Rhaglenni trawsnewidiad yr ASB

Ers nifer o flynyddoedd, mae'r ASB wedi bod yn canolbwyntio ar raglenni i foderneiddio sut mae busnesau'n cael eu rheoleiddio. Cynyddodd y Rhaglen Trawsnewidiad Gweithredol a'r Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau galwadau ar awdurdodau lleol yn y gwaith yma. Mae mwy o geisiadau am ddata, ymgynghoriadau, ceisiadau i gymryd rhan mewn rhaglenni peilot i gyd wedi ychwanegu ar bwysau mewn gwasanaethau bwyd yng Nghymru sydd eisoes yn brysur.

### 2.4.4 Mynediad at Wasanaethau

Mae Gwasanaethau Bwyd a Bwyd anifeiliaid yn cael eu cyflenwi o:

Tŷ Blaen Torfaen
Panteg Way
Y Dafarn
Newydd
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 0LS

Yr oriau swyddfa yw 9am - 5pm (Llun - Iau) a 9am - 4.30pm
(Gwe). Ffôn: 01495 762200 Ffacs: 01495 756198.

Mae rhai ymyraethau'n digwydd y tu allan i oriau swyddfa os oes angen. Mae modd cysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau swyddfa, gan gynnwys ar benwythnosau, er mwyn ymdrin â galwadau brys yn unig, trwy Reolwr Dyletswydd Brys y cyngor, a fydd yn cysylltu â rheolwyr yn yr adran Ddiogelu'r Cyhoedd.

## 2.5 Polisi Gorfodi

Mae gorfodaeth teg ac effeithiol yn hanfodol i warchod buddion economaidd, amgylcheddol, a chymdeithasol y cyhoedd a busnes. Gall penderfyniadau am gamau gorfodaeth, ac yn arbennig penderfyniad i erlyn, gael goblygiadau difrifol i fusnesau bwyd ac unigolion. Bydd gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Torfaen yn gorfodi deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid, mewn ffordd gymesur, yn unol ag egwyddorion 'Rheoleiddo Gwell' sydd yn y Cod Rheoleiddwyr.

Mae'r Cod Rheoleiddwyr yn seiliedig ar chwech o egwyddorion eang:

- Dylai rheoleiddwyr gwblhau eu gweithgareddau mewn ffordd sy'n cefnogi' rheiny y maen nhw'n rheoleiddio i gydymffurfio a thyfu;
- Dylai rheoleiddwyr rhoi ffyrdd syml o ymgysylltu gyda'r rheiny y maen nhw'n rheoleiddio a chlywed eu barn;
- Dylai rheoleiddwyr seilio'u gweithgareddau rheoleiddio ar risg;
- Dylai rheoleiddwyr rhannu gwybodaeth am gydymffurfiad a risg;
- Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod gwybodaeth glir, cyfarwyddyd a chyngor ar gael i helpu'r rheiny y maen nhw'n rheoleiddio i fodloni eu cyfrifoldebau i gydymffurfio;
- Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod eu ffordd o ymdrin â'u gweithgareddau rheoleiddiol yn dryloyw

Mae'n egwyddorion yma a ffordd y cyngor o ymdrin â gorfodaeth diogelwch cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid ym Mholisi Gorfodaeth Diogelu'r Cyhoedd. Bydd pob camau gorfodaeth yn digwydd gydag ystyriaeth o'r Polisi Gorfodaeth. Ble bynnag mae hynny'n bosibl, bydd gweithgareddau gorfodaeth yn cael eu cydlynu gydag asiantaeth gorfodaeth eraill ac awdurdodau lleol.

Cefnogir y Polisi Gorfodaeth gan weithdrefnau ffurfiol yn ymwneud ag arolygu, samplo, trin cwynion a gorfodaeth.


# 3. Cyflenwad y Gwasanaeth

## 3.1 Ymyraethau mewn Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

### Ymyraethau Hylendid Bwyd

Ymgymerir ag ymyraethau hylendid bwyd i sicrhau bod busnesau bwyd yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd. Mae mesurau ac amodau sy’n angenrheidiol i reoli peryglon a sicrhau addasrwydd bwydydd ar gyfer eu bwyta yn cael eu hasesu.

Mae’r ASB wedi rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol, y ‘Map Awdurdodau Lleol at Adferiad’ i gynorthwyo dychwelyd at weithgareddau busnes arferol ar ôl y pandemig. Mae hyn yn mynd tan Ebrilll 2023 ac mae‘n canolbwyntio ar ailddechrau’r system cyflenwad rheoleiddiol yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gyfer y sefydliadau a’r risg mwyaf, gan roi hyblygrwydd ar yr un pryd ar gyfer sefydliadau risg is. Dangosir y map adferiad isod:



Mae'r tabl isod yn dangos sgoriau risg eiddo, amlder yr ymyraethau a chyfanswm yr ymyraethau hylendid bwyd i'w cyflenwi yn ystod 2022/23 o ystyried map adferiad yr ASB:

| | Cynllun Ymyraeth Hylendid Bwyd Plan 2022-23 | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori Sgorio Eiddo** | **Cyfnod lleiaf ar gyfer Ymyrraeth** | **Dyddiad erbyn pryd y dylai eiddo gael ymyrraeth** | **Nifer y sefydliadau sy'n disgwyl ymyrraeth** | **Targed Ymyrraeth** |
| A | 6 mis | 31 Mawrth 2022 | 0 | 100% |
| B | 12 mis | 30 Mehefin 2022 | 44 | 100% |
| C gyda sgôr hylendid o 2 neu lai | 18 mis | 30 Medi 2022 | 15 | 100% |
| C gyda sgôr hylendid o 3 neu well | 18 mis | 31 Mawrth 2023 | 292 | 100% |
| D gyda sgôr hylendid o 2 neu lai | 24 mis | 31 Rhagfyr | 2 | 100% |
| E | 36 mis | | 0 | N/A |
| *Heb sgôr sy'n flaenoriaeth uchel | O fewn 28 diwrnod o agor | 31 Mawrth 2023 | 21 | 100% |
| * Heb sgôr sy'n flaenoriaeth isel | O fewn 28 diwrnod o agor | 31 Mawrth 2023 | 22 | 100% |
| **Cyfanswm yr ymyraethau hylendid a fwriedir yn 2022/23** | | | **396** | 100% |

* Bydd gweithgareddau eiddo heb sgôr yn cael eu hadolygu'n barhaus, a allai arwain at eu bod yn cael eu hailddosbarthu fel blaenoriaeth uchel neu isel, cyn yr arolwg gyntaf.

## Ymyraethau Ychwanegol

Yn ogystal â'r 396 o ymyraethau a fwriedir y maen eu manylion yn y tabl isod, amcangyfrifir, ar sail data'r blynyddoedd cynt, y bydd angen 130 o ymyraethau ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain o ganlyniad i gofrestriadau busnesau newydd, ceisiadau ar gyfer ail-sgorio o dan y cynllun sgorio hylendid bwyd statudol, ail-ymweliadau i wirio bod gwelliannau a nodir yn ystod arolygon cychwynnol wedi eu gwneud ac mewn ymateb i wybodaeth. Y goblygiadau yw y bydd angen rhyw **526** o ymyraethau hylendid bwyd yn ystod y flwyddyn.

**Ail-ymweliadau hylendid bwyd**

Efallai bydd angen ail-ymweliad at fusnesau bwyd ar ôl arolygon er mwyn gwirio bod gwelliannau wedi eu gwneud neu at ddibenion gorfodaeth. Mae Polisi Ail-ymweld Cymru Gyfan wedi ei gytuno, sydd gofyn am ail-ymweliad i bob busnes bwyd gyda sgôr hylendid bwyd o sero o fewn 28 diwrnod a'r rheiny sy'n sgorio 1 neu 2 i gael ail-ymweliad o fewn 3 mis.

**Ceisiadau am ail-ymweliad o dan y CSHB**

Gall effaith sgôr hylendid bwyd isel ar fusnesau bwyd fod yn sylweddol, felly mae yna ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth i fusnesau ofyn am ail-ymweliad at ddibenion ail-sgorio, ble maen nhw wedi gwneud gwelliannau. Gall busnesau gyda sgôr o 3 neu 4 hefyd ofyn am ail-ymweliad ac mae hyn yn digwydd weithiau os yw busnes yn credu eu bod wedi gwella digon i gael sgôr o 5. Gan fod yr ymweliadau pellach y tu allan i raglen yr awdurdod, y busnes sy'n talu am yr ymweliad am gost a gytunir gan awdurdodau lleol ar sail Cymru gyfan.

## Ymyraethau Safonau Bwyd

Mae ymyraethau safonau bwyd yn cael eu gwneud i sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith safonau bwyd, gan gynnwys cyflwyno, cyfansoddiad, labelu a hysbysebu cywir, mewn ffordd nad yw'n camarwain y defnyddiwr.

Mae manylion y cynllun ymyrraeth ar gyfer safonau bwyd i'w gweld yn y tabl isod:

| Cynllun Ymyrraeth Safonau bwyd 2022-23 | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori Sgorio Eiddo** | **Cyfnod lleiaf ar gyfer Ymyrraeth** | **Nifer y sefydliadau sy'n disgwyl ymyrraeth** | **Targed Ymyrraeth** |
| A | 12 mis | 4 | 100%<br>(Carreg milltir Map Adferiad yr ASB) |
| B | 24 mis. Dim angen ymyraethau oni bai bod gwybodaeth yn awgrymu bod risgiau wedi cynyddu /safonau wedi gostwng neu bod y sefydliad fel arall yn cael ei ystyried fel | 98 | 100% (targed lleol -<br>Dim carreg milltir Map Adferiad yr ASB) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | blaenoriaeth ar gyfer ymyrraeth | | |
| C | Strategaeth gorfodaeth amgen pob pum mlynedd. Dim angen ymyraethau oni bai bod /gwybodaeth bod risgiau wedi cynyddu /safonau wedi gostwng neu bod y sefydliad fel arall yn cael ei ystyried fel blaenoriaeth ar gyfer<br><br>Ymyrraeth oherwydd y risg sy'n bod | 112 | 100% (targed lleol -<br><br>Dim carreg milltir Map Adferiad yr ASB) |
| Heb sgôr | - | 53 | 100%<br>(100%<br><br>(carreg milltir Map Adferiad yr ASB) |
| **Cyfanswm ymyraethau safonau bwyd a gynllunnir ar gyfer 2022/23** | | **267** | |

## Ymyraethau bwyd anifeiliaid

Dilëwyd cyllid o'r Grant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol yn 2015 ac fe'i reolir nawr gan yr ASB i ariannu cyflenwad rhanbarthol o reolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid yng Nghymru. Mae'r ASB yn mabwysiadu dull ar sail risg er mwyn penderfynu nifer a natur yr ymyraethau i'w cyflawni gan bob awdurdod lleol ac mae'n talu yn uniongyrchol pan gyflawnir.

Gall Gweithredwyr Busnes Bwyd Anifeiliaid sy'n dangos safonau uchel i ddiogelwch bwyd anifeiliaid, trwy gymryd camau priodol i gydymffurfio â'r gyfraith, gael cydnabyddiaeth o'r safonau yma wrth benderfynu pa mor aml mae arolygon, ac felly bod yn gymwys ar gyfer 'Cynllun Ennill Cydnabyddiaeth'. Gall busnesau gael cydnabyddiaeth hefyd trwy fod yn aelod cydymffurfiol o gynllun sicrwydd cymeradwy yn y diwydiant, fel 'Red Tractor' neu drwy fod yn aelod o Gonffederasiwn Diwydiannau Amaethyddol.

Cytunwyd yr ymyraethau bwyd anifeiliaid canlynol ar gyfer 2022/23 yn Nhorfaen:

| Categori eiddo | Nifer y sefydliadau sy'n disgwyl ymyrraeth | Targed Ymyrraeth |
|---|---|---|
| Fferm | 30 | 100% |
| Cyd-gynhyrchydd | 1 | 100% |
| **Cyfanswm yr ymyraethau bwyd anifeiliaid a gynllunnir ar gyfer 2022/23** | **31** | |

## 3.2 Cwynion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Pwrpas ymchwilio i gwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid, p'un ai yw'r cynnyrch yn tarddu o'r DU neu o rywle arall, yw:

- Rhoi gwasanaeth i'r cyhoedd
- Adnabod a datrys problemau sy'n creu risg i iechyd cyhoeddus neu ble mae defnyddwyr efallai wedi eu niweidio
- Nodi a yw'r cwyn efallai'n awgrymu problem cenedlaethol neu ryngwladol ehangach, y mae angen mynd ag e ymhellach
- Cynnig cyngor a chyfarwyddyd, ble mae hynny'n briodol, i fusnesau bwyd a defnyddwyr
- Atal cwynion yn y dyfodol

Mae rhai cwsmeriaid yn cysylltu â chwmnïau bwyd yn uniongyrchol ynglŷn â chwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid, fel ffordd o gael iawn wedi eu wneud am yr anghyfleustra iddynt.

Polisi'r cyngor ar gwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid yw ymchwilio ble mae yna oblygiad iechyd cyhoeddus go iawn, neu ble mae trosedd efallai wedi digwydd ac mae'r sawl sy'n cwyno'n fodlon tystiolaeth yn y Llys. Mae cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at y mân-werthwr os mae dim ond iawndal yn cael ei geisio.

Mae gan y cyngor weithdrefnau ar gyfer delio â chwynion bwyd. Mae pob un yn cael eu cydnabod o fewn pum diwrnod, eu blaenoriaethu yn ôl risg, a'u hymchwilio fel sy'n briodol heb oedi gormodol gan ystyried difrifoldeb y cwyn a'r angen i ddiogelu tystiolaeth. Nid yw cwynion dienw'n cael eu hymchwilio fel arfer.

Ar ôl cwyn, efallai bydd swyddog yn ymchwilio er mwyn cael gwybodaeth am y ffeithiau, cael tystiolaeth a, ble mae angen, lleihau'r risg. Bydd hyn yn aml yn gofyn am gael sampl o fwyd neu fwyd anifeiliaid, na fyddai'n rhan or rhaglen samplo. Efallai bydd angen cefnogaeth gan y Dadansoddydd Cyhoeddus a/neu labordy Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn cwblhau ymchwiliadau, a gallai fod yna oblygiadau ariannol i'r gwasanaeth.

Mae'n anodd rhagweld faint o gwynion gaiff eu derbyn yn 2022/2023. Ar sail nifer y cwynion a dderbyniwyd dros y bedair blynedd diwethaf, amcangyfrifir y bydd nifer o gwynion fel a ganlyn yn cael eu derbyn.

| Math o gwyn | Nifer |
| --- | --- |
| Hylendid bwyd (eiddo) | 36 |
| Cwyn bwyd (diogelwch) | 22 |
| Bwyd (arall) | 15 |
| Cwyn bwyd (safonau) | 13 |
| Cwyn bwyd anifeiliaid | 0 |

Nodwch nad yw’n tabl uchod yn cynnwys ceisiadau am wasanaeth.

## 3.3 Egwyddor Awdurdod Cartref a'r Cynllun Prif Awdurdod

Er nad oes gan y cyngor gytundebau ffurfiol mewn grym i weithredu fel Prif Awdurdod ar gyfer unrhyw fusnesau bwyd, mae swyddogion yn cefnogi'r cynllun Prif Awdurdod ac yn ystyried yr egwyddorion a chyfarwyddyd perthnasol wrth ddelio ag unrhyw busnesau bwyd mewn partneriaeth Prif Awdurdod.
Mae swyddogion yn cydnabod rôl Prif Awdurdodau wrth sicrhau dull cyson o gorfodaeth. Rhoddwyd hyfforddiant Prif Awdurdod, gan gynnwys y trefniadau penodol ar gyfer arolwg a gorfodaeth, i swyddogion i sicrhau eu bod yn deall dulliau y mae gofyn i reoleiddwyr eu cymryd fel awdurdodau gorfodi.

Gall pob swyddog fynd at wefan y Prif Awdurdod a byddant yn ystyried egwyddorion y Prif Awdurdod. Cyn ymgymryd ag ymyraethau wedi eu cynllunio, maen nhw fel arfer yn gwirio'r Gofrestr Prif Awdurdod ar-lein i weld a oes gan y busnes bartneriaeth Prif Awdurdod ac, os felly, a oes yna gynllun arolygu penodol neu gyfarwyddyd sicr y maen rhaid iddyn nhw ei ystyried. Bydd swyddogion yn cyflwyno canfyddiadau yn ôl y gofyn i'r Prif Awdurdod a'r busnes ill dau.

Os oes cyfiawnhad am gamau gorfodaeth, bydd swyddogion yn sicrhau y byddan nhw'n hysbysu'r Prif Awdurdod cyn cymryd camau o fewn y cyfnod penodedig neu o edrych yn ôl os bydd risg buan i iechyd.

Y cyngor yw'r 'awdurdod cychwynnol' ar gyfer cynhyrchwyr bwyd, gweithgynhyrchwyr bwyd a busnesau bwyd eraill sy'n cyflenwi bwyd y tu allan i Dorfaen, a bydd yn rhoi cyngor i fusnesau perthnasol ar gydymffurfiad cyfreithiol.  Hefyd, ystyrir unrhyw wybodaeth neu gyngor a dderbynnir gan awdurdodau cartref neu gychwynnol unrhyw le arall. Bydd swyddogion yn cysylltu ag awdurdod cartref neu gychwynnol unrhyw fusnes ble mae'r diffyg cydymffurfiad a nodir yn ymddangos fel petai'n gysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau'r busnes.

Bydd y cyngor yn ymateb i bob cais am wybodaeth a/neu gymorth gan awdurdodau eraill ynglŷn â bwyd a gynhyrchir yn lleol ac a werthir y tu allan i Dorfaen, sy'n destun cwyn.

## 3.4 Cyngor i Fusnesau

Bydd rhoi cyngor amserol o ansawdd da i fusnesau yn parhau'n flaenoriaeth, yn arbennig o ran Gadael yr UE. Mae'n bodloni rhwymedigaethau'r cyngor o dan y Cod Rheoleiddwyr i helpu busnesau i dyfu.

- Fel arfer, bydd swyddogion yn dweud wrth fusnesau pa gamau sydd angen iddyn nhw gymryd i'w galluogi i gael Sgôr Hylendid Bwyd uwch
- Rhoddir cyngor achlysurol ar gais a ble mae'n angenrheidiol, caiff busnesau wybod sut allan nhw gael cefnogaeth arbenigol
- Caiff gwelliannau pellach eu gwneud i'r cyngor sydd ar gael ei fusnesau ar dadlennau'r cyngor ar y we
- Mae manylion o'r hyn sydd i'w ddisgwyl yn ystod arolwg ar gefn adroddiadau arolygon, sy'n cael eu gadael ar y safle ar ôl arolwg, ynghyd â manylion cyswllt y swyddog

- Rhoddir Cyngor yn gyffredinol ar ohebiaeth a ddanfonir ar ôl ymyraethau. Yn ogystal â manylion tor-cyfraith a gofynion cyfreithiol, rhoddir cyngor ar arfer gorau.
- Pan fo deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno, rhoddir gwybodaeth wedi ei thargedu i fusnesau yn y ffordd fwyaf effeithiol, e.e., trwy lythyr, e-bost
- Cynigir cyngor busnes ar safonau bwyd i bob busnes wrth y pwynt cyswllt, h.y. dros y ffôn, yn ystod arolwg neu ar ôl arolwg trwy daflen gyngor neu drwy lythyr.

Mae'n anodd rhagweld nifer y ceisiadau am gyngor a dderbynnir pob blwyddyn. Mae ffactorau fel cyflwyno deddfwriaeth a/neu gyfarwyddyd newydd neu ddyfodiad nifer o fusnesau newydd gynyddu nifer y ceisiadau a dderbynnir. Serch hynny, ar sail tueddiadau'r bedair blynedd ddiwethaf, amcangyfrifir y bydd tua 160 o geisiadau am gyngor busnes yn cael ei derbyn am hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ystod y flwyddyn.

## 3.5 Samplo Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Bwyd a bwyd anifeiliaid samplo is undertaken in accordance with the Bwyd a bwyd anifeiliaid Law Codes of Practice, y cyngor's samplo Polisi, and samplo procedures.

Where samples fail to meet the required safonau, investigations are carried out to identify the cause of the failure, and appropriate action taken to ensure the safety and quality of food cynhyrchion in the food chain.

Samplo is achieved by examination and analysis of foods to ensure they meet safonau for microbiological safety, labelling, chemical and compositional quality, and may be taken:

- as part of a planned survey
- where a cwyn has been received requiring further investigation
- for gorfodaeth purposes, where there are concerns about Diogelwch Bwyd practices identified during an intervention or from intelligence received
- as part of a national, cross regional or locally co-ordinated samplo project
- where there is an alleged or confirmed report of food poisoning forming an essential part of a full investigation of the cause and means of control
- as part of an FSA funded imported food control or other co-ordinated samplo rhaglen
- for Home and Originating Authority samples;
- for process monitoring and verification;
- as directed by the FSA following notification of Diogelwch Bwyd incidents and food alerts for action

Annual samplo rhaglenni are drawn up and implemented to reflect the number, nature and risk ratings of the busnesau bwyd in Torfaen, taking account of Originating Authority obligations, national and regionally coordinated samplo rhaglenni.

### Hylendid bwyd Samplo

Each year y cyngor receives an allocation from Iechyd Cyhoeddus Cymru for microbiological analysis of food samples and develops a samplo plan. The plan is informed by priorities identified by the Welsh Food Microbiological Forum, and agencies such as the FSA, Iechyd Cyhoeddus Cymru, and Iechyd cyhoeddus England.

The Welsh Food Microbiological Forum was established to coordinate the samplo and examination of ready-to-eat foods and the centralised collection of results for the whole of Wales. Each year a 'Shopping Basket' survey of cynhyrchion is agreed which are sampled across Wales.
Participation in this survey helps to identify non- compliant foods, provides useful intelligence, and enables action to be taken to protect iechyd cyhoeddus where unsafe cynhyrchion are identified.

As y cyngor emerges from the pandemig, resources will be focused on addressing the backlog of arolygon. Microbiological samplo will therefore only be carried out reactively in 2022/23. A proactive samplo plan will be developed later in the year.

### Safonau bwyd Samplo

Y cyngor has a limited budget for safonau bwyd samplo and will proactively bid for additional funding for this work when opportunities arise. Priorities are identified having regard to local and national intelligence, risks to defnyddwyr in terms of safety or economic loss, data from the previous year's samplo rhaglen, and emerging risks and priorities identified by local and national intelligence.

Torfaen will continue to support operation OPSON, a global initiative jointly coordinated by Europol - INTERPOL focusing on counterfeit and substandard food, and the organised crime networks behind this illicit trade. In the UK, activities are co-ordinated by the FSA's National Food Crime Unit (NFCU).

The 2022-2023 safonau bwyd samplo plan is at Appendix 1

### Bwyd anifeiliaid Samplo

Awdurdod lleol funding for bwyd anifeiliaid samplo is allocated by the FSA. Samplo is focused at ports of entry therefore there are no plans to sample animal bwyd anifeiliaid in Torfaen during 2022/23

## 3.6 Rheolaeth ac Ymchwiliadau i Gychwyn Clefydau Heintus yn Gysylltiedig â Bwyd

### Achosion unigol o Wenwyn Bwyd a Salwch a Gludir gan Fwyd

Bydd swyddogion yn gweithio'n agos â Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i achosion honedig o heintiau yn gysylltiedig â bwyd yn unol â gweithdrefnau a bennir. Mae'r dulliau o ymateb ac ymchwilio'n amrywio yn ôl risg ac mae'n seiliedig ar natur y salwch a'r organedd sy'n ei achosi. Gall yr ymateb fod trwy ymweliad, dros y ffôn neu drwy holiadur trwy'r post.

## Alldoriadau o Salwch a Gludir gan Fwyd

Yn ogystal ag ymchwilio parhaus i achosion achlysurol o salwch a gluder gan fwyd, mae swyddogion hefyd yn nodi ac yn ymchwilio i alldoriadau. Diffinnir alldoriad fel salwch sy'n effeithio ar ddau neu fwy o bobl sydd â ffactor ddadlennu cyffredin a gysylltir gan amser, lle neu berson. Weithiau, mae alldoriadau'n cael eu hachosi gan Norofirws a amheuir ble mai'r ffordd fwyaf cyffredin o drawsgludo yw naill ai o berson i berson neu ddifwyniad amgylcheddol, yn hytrach na trawsgludiad gan fwyd. Ymgymerir â gwaith sylweddol i gefnogi lleoliadau addysgol a chartrefi gofal, yn arbennig yn ystod y gaeaf er mwyn lleihau'r amhariad a achosir gan yr heintiau feirysol yma.

Mae alldoriadau o salwch a gludir gan fwyd yn digwydd dim ond yn achlysurol. Os digwydd alldoriad, mae swyddogion yn gweithredu'n unol â *Chynllun Rheolaeth Alldoriad* Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n gosod gerbron y dull o reoli alldoriadau o glefydau trosglwyddadwy ac a ddilynir gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r Cynllun yn gofyn am ddynodi Swyddog Arweiniol ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy ym mhobl. Mae gan Dorfaen swyddog arweiniol enwebedig ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy Torfaen sy'n cael eu cefnogi gan swyddogion cymwys eraill wrth gwblhau ymchwiliadau.

Os bydd alldoriad, bydd y swyddog Arweiniol dros Glefydau Trosglwyddadwy yn aelod craidd o'r Tîm Rheolaeth Alldoriad a bydd ganddynt gyfrifoldebau penodol, gan gynnwys cysylltu a chyfweld ag unigolion sydd wedi eu heffeithio, cymryd samplau, ymchwilio mewn adeiladau bwyd cyfrannog, a mynychu cyfarfodydd y Tîm rheolaeth Alldoriad. Gan ddibynnu ar faint a math yr alldoriad, gall ymchwiliadau fod yn ddrud a gallant effeithio ar waith arall a gynllunnir.

Mae ymchwilio i achosion ac alldoriadau clefyd a gludir gan fwyd fel arfer yn cynnwys: -

- Derbyn a gwirio unigion a gadarnhawyd gan labordy o Labordai Microbiolegol Iechyd Cyhoeddus Cymru (trwy Tarian) ac adroddiadau heb eu cadarnhau i o wenwyno bwyd gan ymarferwyr iechyd, aelodau'r cyhoedd, achosion, cyflogwyr, awdurdodau lleol eraill
- Cyfweliadau dros y ffôn ac, yn llai aml, wyneb yn wyneb gydag achosion, cysylltiadau agos a rhoi cyngor ar reolaeth haint;
- Rheoli allgau achosion a phobl gysylltiedig o'r gweithle, ysgolion a lleoliadau gofal iechyd;
- Cysylltu â Meddygfeydd, ysbytai, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a rhanddeiliaid eraill yn ystod ymchwiliadau at ddibenion nodi tarddiad haint ac atal trosglwyddiad pellach;
- Ymgymryd ag ymweliadau â safleoedd i osod rheolaethau ac ymyraethau ataliol;
- Rheoli casglu a chyflwyno samplau ysgarthol;
- Casglu, dadansoddi ac adrodd am ddata'n ymwneud â salwch a gludir gan fwyd;
- Ymchwilio a rheolaeth alldoriadau o glefydau trosglwyddadwy ble mai bwyd neu ddŵr yw cyfrwng yr haint, neu fe amheuir hynny.
- Arwain, a chyfrannu at gynlluniau lleol a chenedlaethol ar heintiau trosglwyddadwy a rhaglenni gwyliadwriaeth

Mae'n anodd amcangyfrif nifer yr achosion neu alldoriadau o heintiau yn ymwneud â bwyd a ymchwilir yn 2022/23. Serch hynny, ar sail data'r bedair blynedd ddiwethaf, amcangyfrifir fel a ganlyn:

| Heintiau Trosglwyddadwy 2022-2023 (ar sail data'r 4 blynedd ddiwethaf) | |
|---|---|
| **Math o ymchwiliad** | **Nifer** |
| Hysbysiadau salwch a gludir gan fwyd | 225 |
| Nifer yr alldoriad/digwyddiadau | 40 |
| Nifer y ceisiadau am wasanaeth | 36 |

## 3.7 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd Anifeiliaid a Bwyd

Mae digwyddiad bwyd yn digwydd pan fo pryderon o gylch diogelwch neu ansawdd bwyd (a/neu bwyd anifeiliaid) a allai fod ag angen am gamau i ddiogelu defnyddwyr.

Mae digwyddiadau'n syrthio'n gyffredinol i ddau gategori:

- halogi bwyd neu fwyd anifeiliaid wrth brosesu, dosbarthu, manwerthu ac arlwyo
- digwyddiadau sy'n llygru'r amgylchedd fel tân, cemegion neu olew yn tasgu ac ymbelydredd yn gollwng

Mae gan y cyngor drefniadau i ymateb i rybuddion bwyd ar gyfer cymryd camau a digwyddiadau diogelwch bwyd a gyfathrebir gan yr ASB. Mae swyddogion bwyd a bwyd anifeiliaid yn tanysgrifio i system *Hwyluso Cyfathrebu* ac, o ganlyniad maen nhw'n derbyn rhybuddion bwyd yn uniongyrchol trwy e-bost. Mae'r ASB yn rhoi tri math o rybudd bwyd:

- Rhybuddion Bwyd ar gyfer Cymryd Camau
- Hysbysiadau Gwybodaeth Galw Cynnyrch yn Ôl
- Rhybuddion Alergerddau sy'n rhoi gwybodaeth yn uniongyrchol i ddefnyddwyr

Rhoddir Hysbysiad Gwybodaeth Tynnu Cynnyrch yn Ôl neu Hysbysiad Gwybodaeth Galw Cynnyrch Yn Ôl pan fo ateb i'r broblem wedi ei gyflwyno. Mae'r cynnyrch wedi ei dynnu'n ôl neu yn cael eu dynnu'n ôl o gael ei werthu, neu wedi cael ei alw'n ôl o ddefnyddwyr, er enghraifft.

Rhoddir Rhybudd Bwyd ar gyfer Cymryd Camau ble mae angen ymyrraeth gan awdurdodau gorfodi. Yn achos rhybuddion bwyd sy'n gofyn am gamau, bydd y tîm yn sicrhau bod yr holl gamau a bennir yn cael eu cymryd yn unol â'r cyngor a roddir gan yr ASB. Bydd swyddogion hefyd yn dilyn gweithdrefnau a bennir, gan amlinellu trefniadau gweithredol ar gyfer ymdrin â digwyddiadau o'r fath yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Gall ymateb i rybuddion olygu cysylltu neu ymweld ag adeiladau ble mae cynnyrch bwyd dan amheuaeth yn debygol o fod ar werth.

Ble mae swyddogion yn dod yn ymwybodol o ddigwyddiad lleol difrifol, neu broblem ehangach gyda diogelwch bwyd, byddan nhw'n hysbysu'r ASB yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Os bydd digwyddiad bwyd anifeiliaid yn digwydd yn Nhorfaen, cysylltir â'r ASB yn syth. Caiff natur a graddfa'r ffeithiau eu cadarnhau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod unrhyw fwyd anifeiliaid sydd dal o gwmpas yn cael ei gipio. Bydd digwyddiadau diogelwch bwyd anifeiliaid yn cael blaenoriaeth dros weithgareddau arolygu a samplo.

Er ei fod yn anodd rhagweld nifer y digwyddiadau bwyd/bwyd anifeiliaid a gaiff eu derbyn mewn unrhyw flwyddyn, gall yr ymchwiliadau yma gael effaith sylweddol ar y rhaglenni ymyrraeth a gynllunnir. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae nifer yr digwyddiadau sy'n gofyn am gamau gan yr awdurdod lleol wedi amrywio.

## 3.8 Cysylltiadau â Sefydliadau Eraill

Mae cysylltu'n beirianwaith priodol ar gyfer sicrhau cysondeb rhwng gorfodwyr, rhannu arfer da, rhannu gwybodaeth, a dweud wrth orfodwyr eraill am sefyllfaoedd anodd posibl.

Y prif randdeiliaid ar gyfer gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid yw: -

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cyfarwyddwyr Diogelu Cyhoedd Cymru – Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd;
- Cyfarwyddwyr Diogelu Cyhoedd Cymru - Panel Arbenigwyr Clefydau Trosglwyddadwy;
- Panel Bwyd Penaethiaid Safonau Masnach Cymru; Panel Bwyd ac Amaethyddiaeth
- Grŵp Cysywllt Rhanbarthol Cyfarwyddwyr Diogelu Cyhoedd Cymru
- Grŵp Bwyd Gwent
- Swyddog Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol Gwent
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru
- Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru.
- Cyswllt â chyrff proffesiynol fel Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol, Sefydliad Siartredig Safonau Masnach, Cymdeithas Brenhinol Iechyd, Sefydliad Brenhinol Iechyd Cyhoeddus a Hylendid
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolygaeth Safonau Gofal Cymru.
- Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch
- Grwpiau ymgynghorol, e.e. Grŵp Ffocws Hylendid Bwyd Cenedlaethol.
- Cyswllt â gwasanaethau eraill y Cyngor, fel Trethi Busnes, Cynllunio a rheolaeth Adeiladu i arolygu ac adolygu ceisiadau;
- Llywodraeth Cymru
- Uned Data Llywodraeth Leol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Ymgynghorwyr mewn Rheolaeth Clefydau Trosglwyddadwy, microbiolegwyr, labordai yn Ysbytai Llandochau a'r Waun
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Canolfan Peryglon- Ymbelydrol a Chemegol ac Amgylcheddol
- Labordai dadansoddwyr cyhoeddus - Minton Treharne and Davies, Cross Hands a Chaerdydd
- Pwyllgor Bwyd Diogel Cynaliadwy Dilys Cymru
- Dŵr Cymru mewn perthynas a datgysylltu dŵr

## 3.9 Gwaith Hyrwyddol Diogelwch a Safonau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd ac Ymyraethau Rheoli Answyddogol Eraill

Bydd y Gwasanaeth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddol pan fydd y rhain yn briodol i anghenion a blaenoriaethau lleol, a ble mae adnoddau'n caniatáu, ond nid ar draul y gweithgareddau diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid eraill fel arolygon, ymchwilio i gwynion etc.. O ganlyniad, mae'n anodd rhagweld effaith gweithgareddau hyrwyddol ar adnoddau.

Mae'r cyngor yn parhau'n ymrwymedig at barhau i hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ac yn bwriadu cynyddu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol a gwefan y cyngor i hyrwyddo negeseuon Diogelwch Bwyd a, ble mae adnoddau'n caniatáu, bydd yn gwneud defnydd o unrhyw becynnau a gaiff eu cynhyrchu gan yr ASB at y diben hwn.



Un o ymgyrchoedd hyrwyddol yr ASB a gefnogwyd yn 2022 yw diogelwch bwyd mewn cysylltiad â dathliadau Jiwbilî Platinwm y Frenhines, pan mwynhaodd y wlad ŵyl banc am bedwar diwrnod a bu nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus a phartïon stryd.

Mae'n ddiddorol bod strategaeth 5 mlynedd newydd yr ASB wedi ystyried pryder cynyddol ymhlith y cyhoedd ynglŷn ag iechyd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd bwyd.  Eu gweledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw bod:

- Bwyd yn ddiogel
- Bwyd yr hyn y mae'n honni bod
- Bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy

Fel un o lofnodwyr Siarter Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ymrwymo i wneud datblygiad cynaliadwy yn egwyddor ganolog yn nhrefniadaeth ei weithgareddau. Yn 2022/23, bydd y cyngor yn ystyried sut all gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid gyfrannu at agendâu cynaliadwyedd a bwyd iachach, gyda bwriad o ddatblygu Cynllun gydag argymhellion ar gyfer gweithredu yn 2023/24.

# 4. Adnoddau

## 4.1 Dyraniad Ariannol

Y gyllideb ar gyfer rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol yn 2022-2023 yw £343,655, wedi ei rhannu fel a ganlyn:

| Cyllideb y Gwasanaeth Bwyd | |
|---|---|
| **Gwariant** | **Cyllideb** |
| Staffio | £327,885 |
| Teithio a chynhaliaeth | £2,015 |
| Hyfforddiant a datblygiad | £1,000 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | £10,678 |
| Samplo | £2,077 |
| **Cyfanswm** | **£343,655** |

Mae'r gyllideb ar gyfer rheolaethau bwyd swyddogol wedi cynyddu ers 2019/20 (adroddiad diweddaraf y System Monitro Gorfodaeth Awdurdodau Lleol (LAEMS)) oherwydd mwy o adnoddau o ran swyddogion a roddir i hylendid bwyd.

Dilëwyd arian bwyd anifeiliaid o Grant Cymorth Refeniw Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn Ebrill 2015 er mwyn hwyluso sefydlu model cyflenwad rhanbarthol a thargedu mwy effeithiol o adnoddau at feysydd o'r perygl mwyaf. Mae'r cyngor yn ymrwymedig i'r model cyflenwad rhanbarthol ac wedi ymgymryd ag arolygon ar ran awdurdodau lleol eraill yng Ngwent er mwyn sicrhau llwyddiant y model.

Mae arian ar gyfer rheolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid nawr yn nwylo'r ASB, su'n ei roi i awdurdodau lleol ar sail nifer a math yr eiddo a arolygir. Mae cynllun gwaith bwyd anifeiliaid yr awdurdod lleol yn cael ei gytuno gyda'r ASB bob blwyddyn. Disgwylir y bydd Torfaen yn derbyn tua £4,666 o arian bwyd anifeiliaid gan yr ASB yn 2022/23.

## 4.2 Dyraniad Staffio

Y dyraniad staffio ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid a materion cysylltiedig, gan gynnwys rheolaeth strategol a chefnogaeth weinyddol yw 6.08 Cyfystyr ag Amser Llawn (CALl):

- 1 Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd 0.1 CALl
- 1 Rheolwr Iechyd Amgylcheddol 0.25 CALl
- 1 Rheolwr Trwyddedu a Safonau Masnach 0.25 CALl
- 4 Uwch Ymarferydd Iechyd Amgylcheddol 1.83 CALl
- 1 Ymarferydd Iechyd Amgylcheddol 0.8 CALl
- 2 Uwch Swyddog Diogelwch Bwyd 1.6 CALl
- 1 Uwch Swyddog Safonau Masnach 0.5 CALl

- 2 Uwch Swyddog Masnach Deg 0.5 CALI
- 1 Cefnogaeth Weinyddol 0.25 CALI

Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw arweinydd strategol Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru ar gyfer materion bwyd a bwyd anifeiliaid, mae'n cadeirio Pwyllgor Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru, ac mae'n aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Bwyd y Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol.

Nid yw'r Rheolwr Iechyd Amgylcheddol a'r Rheolwr Trwyddedu a Safonau Masnach yn swyddogion bwyd cymwys, ond mae ganddyn nhw rôl bwysig wrth reoli staff, goruchwylio ac adrodd  ac adrodd ar gyflenwad y gwasanaeth.

Mae yna dri swyddog sy'n gymwys ac wedi eu hawdurdodi i gyflenwi ystod llawn y rheolaethau Diogelwch a Hylendid Bwyd swyddogol, gan gynnwys arolygon busnesau risg uchel.  Mae'r swyddogion sy'n weddill yn ymgymryd â dyletswyddau rheolaeth bwyd swyddogol yn unol â'u cymwysterau cyfredol a'u statws awdurdodi.

Mae yna dri swyddog sy'n gymwys i gyflenwi ystod llawn y rheolaethau safonau bwyd swyddogol, sydd gyfystyr â 0.86 swyddog CALI. Cwblhaodd dau swyddog bwyd sydd fel arfer yn cyflenwi rheolaeth hylendid bwyd swyddogol hyfforddiant safonau bwyd yn 2021/22.

Mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, mae yna un swyddog cymwys, sydd gyfystyr â tua 0.13 swyddog cymwys CALI yn cyflenwi rheolaeth bwyd anifeiliaid swyddogol.

Cyfyngir y gymeradwyaeth gychwynnol o eiddo sy'n destun deddfwriaeth sy'n berthnasol i gynnyrch i'r swyddogion awdurdodedig hynny sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'r eiddo hynny sy'n cael eu hystyried yn gymwys gan y Swyddog Arweiniol ar gyfer Hylendid Bwyd. Ar hyn o bryd, mae tri swyddog wedi eu hawdurdodi i ymgymryd ag arolygon awdurdodedig o eiddo.

## 4.3 Cynllun Datblygu Staff

Bydd y cyngor yn gydymffurfio â gofynion Codau Ymarfer cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid mewn perthynas â hyfforddiant staff a chymwysterau swyddogion a chontractwyr. Ar hyn o bryd, mae gofyn i'r rhan fwyaf o swyddogion gwblhau 20 awr o DPP y flwyddyn.

Mae gan Gyngor Torfaen gynllun gwerthuso staff sy'n cynnig cyfle i swyddogion:

- Adolygu llwyddiannau a nodi rhwystrau at gyrraedd targedau yn ystod y flwyddyn flaenorol
- Cytuno ar dasgau ac amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Asesu galluoedd craidd a meysydd ar gyfer datblygiad, gan ddefnyddio  pro-fforma yr ASB yn seiliedig ar ei Fframwaith Galluoedd
- Nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad i sicrhau bod gan cyngor weithlu abl a'i fod yn cefnogi datblygiad gyrfa

Yn ogystal â sesiynau briffio tîm yn rheolaidd, ble mae materion sy'n peri pryder a materion mewn perthynas â chysondeb yn cael eu trafod, mae swyddogion arweiniol yn archwilio gwaith swyddogion awdurdodedig ac yn rhoi adborth.

Mae gan swyddogion bwyd a bwyd anifeiliaid fynediad at y wybodaeth ddiweddaraf, trwy:

- Cronfa ddata Hwyluso Cyfathrebu'r ASB (RIAMS)

- Cyrsiau ar-lein a gyflenwir trwy’r ASB
- Trafodaeth rhwng cydweithwyr ar Knowledge Hub
- Ffeiliau tîm wedi eu rhannu a mynediad at y rhyngrwyd

Mae cyfleoedd datblygiad yn codi trwy’r flwyddyn ac mae swyddogion yn cael eu hannog i fynychu hyfforddiant sy’ n briodol at eu rôl. Mae enghreifftiau’n cynnwys:

- Hyfforddiant a ariennir gan yr ASB
- Hyfforddiant a gynigir gan gyrff proffesiynol e.e., CIEH, CTSI
- Hyfforddiant cysondeb cenedlaethol a ddarperir gan yr ASB

Mae’r rhaglen hyfforddiant a gytunwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn y tabl isod,
er y gallai cyfleoedd pellach godi:

| **Cynllun Hyfforddiant a Datblygiad Swyddogion bwyd a bwyd anifeiliaid 2022-2023** | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Darparwr** | **Hyd** | **Gwybodaeth** |
| Bwyd wedi ei Fewnforio | ASB | 2 diwrnod | Rheolaethau bwyd wedi ei fewnforio |
| Bwyd wedi ei Fewnforio (E Ddysgu) | ASB | 1 diwrnod | Rheolaethau bwyd wedi ei fewnforio |
| Cysondeb CSHB | ASB | 0.5 diwrnod | Ymarfer Cenedlaethol Cysondeb CSHB |
| Pacio dan Wactod | CIEH | 0.5 diwrnod | Peryglon, risgiau a rheolaethau |
| HACCP | ASB | 1 diwrnod | Egwyddorion, gweithredu ac asesiad y HACCP |
| Diweddariad Cyffredinol Cyfraith Bwyd | ASB | 2 diwrnod | Trosolwg o ddeddfwriaeth hylendid bwyd a safonau bwyd gan gynnwys gweithredu ac astudiaethau achosion |
| Alergenau | ASB | 2 diwrnod | Yn cynnwys gofynion newydd PPDS, defnydd o labeli rhagofalus, asesiad risg ac astudiaethau achos |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Samplo Bwyd | ASB | 0.5 diwrnod | Rolau a chyfrifoldebau, samplo anffurfiol a ffurfiol ar gyfer dadansoddiad ac archwiliad, dadansoddi canlyniadau ac opsiynau gorfodaeth |

# 5. Asesiad Ansawdd

## 5.1 Asesiad Ansawdd a Monitro Mewnol

Gwneir monitro mewnol er mwyn ysbrydoli anghenion hyfforddiant a datblygiad a hyrwyddo cysondeb. Mae gan Reolwr y Tîm Iechyd Amgylcheddol, Rheolwr y Tîm Trwyddedu a Safonau Masnach a swyddogion arweiniol hylendid bwyd a safonau bwyd oll rôl mewn monitro mewnol. Mae'r swyddogion arweiniol monitro mewnol ansoddol, gan amlygu unrhyw faterion o bryder gerbron swyddogion a'r Rheolwr Tîm priodol. Cyfrifoldeb y Rheolwyr Tîm yw monitro mewnol ansoddol, gyda chefnogaeth swyddogion arweiniol yn ôl y gofyn.

Datblygwyd gweithdrefn ar gyfer monitro mewnol, sy'n cynnwys gwirio cofnodion arolwg a gwaith adweithiol, adolygiadau cymheiriaid, ymarferion cysondeb i asesu gallu swyddogion a chydymffurfiad â gofynion statudol, cyfarwyddyd, gweithdrefnau mewnol, arfer gorfodaeth da a gofal cwsmer.

Cynhyrchir adroddiadau perfformiad mewnol i gymharu perfformiad gyda thargedau'r cynllun gwasanaeth .

Mae'r Rheolwr Tîm Trwyddedu a Safonau Masnach yn gyfrifol am wirio nifer yr ymyraethau bwyd anifeiliaid ymgymerir â nhw a chywirdeb hawliadau am arian i'r ASB. Cyfrifoldeb y Swyddog Bwyd Anifeiliaid Arweiniol Rhanbarthol yw monitro ansoddol gwasanaeth bwyd anifeiliaid Torfsen.

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DAP)**

Nodwyd y DAP canlynol ar gyfer gwasanaethau gorfodaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, gyda pherfformiad yn erbyn y rhain yn destun adroddiad chwarterol i Uwch Swyddog Gwelliant Corfforaeth a Chraffu'r cyngor.

- Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio ar y cyfan' â safonau hylendid bwyd (PAM/023)
- Canran yr ymyraethau hylendid bwyd a gynllunnir ar gyfer busnesau bwyd risg uwch (categori A, B a sgôr C sydd ddim yn cydymffurfio ar y cyfan) a gyflawnwyd

Nodwyd y dangosyddion perfformiad (DA) canlynol ar gyfer adroddiad chwarterol i'r Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd:

- Canran yr ymyraethau safonau bwyd a gynllunnir mewn sefydliadau wedi eu targedu (risg uchel a blaenoriaeth heb sgôr) a gyflawnwyd (cronnol)
- Canran yr ymyraethau hylendid bwyd anifeiliaid a gynllunnir mewn busnesau bwyd anifeiliaid a gyflawnwyd (cronnol)
- Canran yr apeliadau sgôr hylendid bwyd a benderfynir o fewn 21 diwrnod
- Canran cwynion am fwyd a cheisiadau am wasanaeth ymatebir iddyn o fewn 5 diwrnod gwaith (cronnol)
- Canran argymhellion archwiliad yr ASB a gwblheir
- Canran yr hysbysiadau am glefydau heintus yn gysylltiedig â bwyd ymatebir iddynt o fewn amserlenni targed Iechyd Cyhoeddus Cymru

# 6. Adolygu

## 6.1 Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth

Yn ystod y pandemig, cafwyd oedi ar y cyfan ar wasanaethau hylendid bwyd. Ymatebodd swyddogion i faterion bwyd o arwyddocâd ar gyfer iechyd cyhoeddus ac unrhyw faterion o bryder uniongyrchol.

Yn 2021/22, gwnaeth y cyngor ymyraethau hylendid bwyd yn y canlynol:

5 o fusnesau sgôr A

19 o fusnesau sgôr B

38 o fusnesau sgôr C

10 o fusnesau sgôr D

1 busnes sgôr E

14 o fusnesau bwyd

newydd

Caewyd chwe busnes yn wirfoddol, rhoddwyd chwe Hysbydiad Gwelliant a tri hysbysiad Camau Adfer.

Ym Mawrth 2021, dechreuodd y cyngor arolwg dros y ffôn, gan dargedu pob busnes bwyd yn y fwrdeistref er mwyn cael gwybodaeth am eu gweithrediadau bwyd trwy'r pandemig, ac i weld a oedden nhw wedi cyflwyno unrhyw newidiadau a allai gynyddu risgiau diogelwch bwyd.

Mae crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg isod:

- Atebodd 406 (60%) o holl fusnesau bwyd yn Nhorfaen, gan gynnwys 94 (84%) o'r 112 o fusnesau bwyd a oedd newydd gofrestru, i'r arolwg.
- Roedd 100 (32%) o fusnesau bwyd a oedd wedi eu harolygu o'r blaen gan y cyngor wedi cau, a dywedodd 28 (28%) o'r rhain eu bod wedi cau'n barhaol. Mae mwyafrif y 100 o fusnesau bwyd wedi eu categoreiddio fel bwyty/arlwywyr/eraill ac yn destun rhai cyfyngiadau mewn perthynas ag agor.
- Roedd 212 (68%) o fusnesau bwyd sydd wedi eu harolygu o'r blaen gan y cyngor yn masnachu ar adeg yr arolwg. Serch hynny, roedd dros hanner (56%) o'r rhain wedi cau o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- Dywedodd 31 (11%) o 284 o fusnesau bwyd sydd wedi eu harolygu o'r blaen gan y cyngor eu bod wedi newid y maeth o fwyd y maen nhw'n ei werthu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Dywedodd 102 (36%) o 284 o fusnesau bwyd sydd wedi eu harolygu o'r blaen gan y cyngor eu bod wedi newid y ffordd y maen nhw'n gwerthu bwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau casglu neu gludiant.
- Doedd 40 (43%) o fusnesau bwyd oedd newydd eu cofrestru ddim wedi dechrau masnachu ac roedd 17 (18%) wedi cau am gyfnod yn ystod y flwyddyn.

Yn 2021/22, cwblhawyd yr ymyraethau safonau bwyd canlynol:

- Arolygon o bob un o'r 5 o fusnesau bwyd â sgôr A cyn carreg filltir Map Adferiad yr ASB ym Mehefin 2022.
- 78 o ymyraethau mewn busnesau â sgôr B
- 96 o ymyraethau mewn busnesau â sgôr C
- 85 o arolygon ar y safle o fusnesau newydd (roedd 138 o fusnesau newydd wedi cofrestru gyda'r cyngor yn ystod y flwyddyn).

Yn 2021/22, cymerodd y cyngor ran mewn nifer o fentrau samplo safonau bwyd, gan gynnwys cynllun OPSON, cynllun rhyngwladol a oedd yn canolbwyntio ar samplo pysgod o fusnesau tecawê. Mae labelu twyllodrus o fwyd môr am enillion economaidd yn digwydd yn helaeth ledled y byd. Dangosodd samplo pysgod yn Nhorfaen bod pob un o'r pump sampl 'Penfras' a ddadansoddwyd yn dderbyniol, heb unrhyw camddisgrifio Penfras yn un o'r pum busnes bwyd a gafodd ymweliad.

Ymhlith cynlluniau samplo roedd:

- Amnewid almon mewn prydiau Indiaidd
- Presenoldeb alergen pysgnau mewn prydiau Tsieineaidd
- Ham wedi ei gamddisgrifio/amnewid mewn pitsas heb eu pecynnu o flaen llaw
- Diodydd heb gynnych llaeth mewn caffis/tai coffi
- Samplo anffurfiol bwydydd wedi eu cynhyrchu ble mai'r cyngor yw'r Awdurdod Cartref

Cyflwynwyd deddfwriaeth -labelu alergenau newydd yn Hydref 2021, a oedd yn gofyn i gynhyrchion bwyd wedi eu pecynnu ar gyfer gwerthiant uniongyrchol gael label gyda rhestr lawn o gynhwysion ac yn amlygu unrhyw un o'r 14 o brif alergenau sydd ynddynt. Atgoffodd y cyngor dros 170 o fusnesau bwyd lleol am y gofynion newydd trwy gyfarwyddyd a chyngor. Hefyd, cynorthwyodd swyddogion gyd-swyddogion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ddatblygu pecyn ymwybyddiaeth alergenau bwyd amlieithog arobryn, a gydnabyddwyd yn genedlaethol fel arfer da.

Mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, cwblhawyd 21 o arolygon bwyd anifeiliaid yn 2021/22 yn erbyn targed o 22. Rhoddodd hyn incwm o ryw £5,600 i'r cyngor.

## 6.2 Nodi Unrhyw Amrywiaeth o Gymharu a'r Cynllun Gwasanaeth

Bydd cynnydd y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau bwyd yn erbyn y targedau ym Map Adferiad Awdurdodau Lleol yn dal i fod yn destun adroddiad i'r ASB. Rhoddwyd adroddiadau ar 1 Hydref 2021, 28 Ebrill 2022 ac, yn fwyaf diweddar ar 15 Gorffennaf 2022.

Ers Ebrill 2022, mae adolygiadau mewnol wedi nodi bod cydymffurfiad busnesau â gofynion cyfraith bwyd wedi gostwng. Gwelir y duedd yma ledled Lloegr a Chymru, ac mae'n golygu bod rhaid i swyddogion dreulio mwy o amser mewn sefydliadau bwyd, mae mwy o hysbysiadau cyfreithiol yn cael eu rhoi ac mae mwy o fusnesau destun ymweliadau dilynol a chamau gorfodaeth ffurfiol. Mae hyn, ynghyd ag absenoldeb staff, yn effeithio ar gynhyrchiant ac efallai ar allu'r cyngor i fodloni gofynion y Cynllun Adferiad heb adnoddau ychwanegol.

Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd sy'n gyfrifol am sicrhau bod camau priodol i leddfu risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddiffyg mewn perfformiad, yn cael eu nodi, eu gweithredu ac, os oes angen, yn cael eu hesgyn at y Prif Swyddog Cymdogaethau, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd. Mae Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd yn ystyried nifer o gamau lleddfol i gefnogi adferiad, sy'n cynnwys:

- Cynnig oriau ychwanegol i swyddogion ar gyfer ymyraethau hylendid bwyd ychwanegol
- Defnyddio contractwr i wneud ymyraethau hylendid bwyd
- Adolygiadau gwaith mwy rheolaidd gan Reolwyr Tîm i fonitro perfformiad
- Penodi 'swyddog dyletswydd' i ymdrin â gwaith hylendid bwyd adweithiol gan alluogi swyddogion eraill i ganolbwyntio dim ond ar gyflawni ymyraethau a gynllunnir
- Dychwelyd swyddog a secondiwyd i reoli'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu at ddyletswyddau bwyd

## 6.3 Meysydd ar gyfer Gwelliant

Yn 2015, cafodd gwasanaeth gorfodaeth cyfraith bwyd y cyngor archwiliad gan yr ASB. Mae'r Cynllun Gweithredu a ddeilliodd o'r archwiliad yn dal i fod ar agor, er bod rhai o'r argymhellion wedi eu gweithredu ers hynny.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i welliant parhaus mewn gwasanaethau a bydd yn sicrhau y bydd camau priodol yn cael eu cymryd i weithredu unrhyw argymhellion eraill o'r archwiliad. Nodwyd y meysydd yma ar gyfer gwelliant yn 2022/23:

- Ystyried sut all gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid gyfrannu ar gynaliadwyedd a agendâu bwyd iachach, gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun yn cyflwyno argymhellion ar gyfer gweithredu yn 2023/24
- Parhau i ddatblygu galluoedd swyddogion hylendid bwyd i alluogi swyddogion i ymgymryd ag amrywiaeth lawn o ymyraethau hylendid bwyd, gan gynnwys arolygon sefydliadau cymeradwy
- Parhau gyda gwaith o sicrhau cywirdeb y gronfa ddata ar gyfer eiddo bwyd anifeiliaid
- Cynnig rhaglen o hyfforddiant cyfreithiol i swyddogion er mwyn gwella'u hyder a'u galluoedd wrth ymgymryd â chamau gorfodaeth ffurfiol
- Adolygu a diweddaru gwefan y cyngor i sicrhau bod gan defnyddwyr a busnesau fynediad at cyngor a gwybodaeth gywir ac o ansawdd da am gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid
- Ymateb i ymgynghoriadau'r llywodraeth a'r ASB ar faterion bwyd a bwyd anifeiliaid fel sy'n briodol
- Gweithio Cyswllt Busnes Torfaen i ddatblygu a gweithredu arolygon bodlonrwydd busnes er mwyn cael adborth ar ymadweithiau gyda gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid

## Atodiad 1

## Cynllun Samplo Safonau Bwyd 2022/23

**Rhaglen Samplo Safonau Bwyd 2022/2023**

| Dyddiad | Arolwg | Amcangyfrif o Nifer y Samplau | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Ebrill 2022 – Mawrth 2023 (yn gynhwysol) | **PRIF AWDURDOD** – Gweithgynhyrchwyr bwyd yn Nhorfaen | 14 | Fel rhan o archwiliadau safonau arferol a rheolaethau swyddogol eraill, caiff samplau bwyd eu cymryd o fusnesau bwyd yn ardal y Prif Awdurdod/Awdurdod Wreiddiol |
| Ebrill 2022 - Mai 2022 | **ALLERGENNAU** – Presenoldeb wyau mewn prydiau a brynwyd o fusnesau tecawê BUSNESAU TECAWÊ TSIEINEAIDD | 10 | |
| Ebrill 2022 - Mai 2022 | **ALLERGENNAU** – Presenoldeb pysgnau mewn prydiau a brynwyd o fusnesau tecawê BUSNESAU TECAWÊ INDIAIDD | 10 | |
| Ebrill 2022 - Mai 2022 | **ALLERGENS** – Presenoldeb llaeth mewn prydiau a brynwyd o fusnesau tecawê BUSNESAU TECAWÊ KEBAB | 10 | |
| Hydref 2022 | **CYNNYRCH AMGEN HEB GYNNYRCH LLAETH MEWN CAFFIS/TAI COFFI** | 5 | |